WISERD

Sefydliad Ymchwil Cymdeithasol
ac Economaidd a Data Cymru

Wales Institute of Social and
Economic Research and Data

# CIPOLWG

## ADRODDIAD BLYNYDDOL 2023

Mae WISERD yn cynnal Canolfan Ymchwil Cymdeithas Sifil WISERD ledled y DU, buddsoddiad mawr gan y Cyngor Ymchwil Economaidd a Chymdeithasol (ESRC)

Mae Sefydliad Ymchwil a Data Cymdeithasol ac Economaidd Cymru (WISERD) yn sefydliad ymchwil cenedlaethol, rhyngddisgyblaethol yn y gwyddorau cymdeithasol.

Rydym wedi ein dynodi'n ganolfan ymchwil genedlaethol gan Lywodraeth Cymru. Gan ddefnyddio dulliau arloesol, mae ein hymchwil yn cwmpasu economeg, cymdeithaseg, daearyddiaeth a gwyddoniaeth wleidyddol.

Rydym yn fenter ar y cyd rhwng prifysgolion Aberystwyth, Bangor, Caerdydd, De Cymru ac Abertawe – ac yn cydweithio i wella safon a maint ymchwil y gwyddorau cymdeithasol yng Nghymru a thu hwnt.

Mae ein gwaith ymchwil yn ysgogi newid drwy ddylanwadu ar ddatblygiad polisïau ac arferion ar draws ystod o sectorau.

Ym Mhrifysgol Aberystwyth, mae WISERD yn cynnwys Canolfan Gwleidyddiaeth a Chymdeithas Cymru.

Mae WISERD hefyd yn gartref i ADR Cymru (Ymchwil Data Gweinyddol Cymru) – cydweithrediad rhwng Llywodraeth Cymru, Ysgol Meddygaeth Prifysgol Abertawe a WISERD ym Mhrifysgol Caerdydd. Mae ADR Cymru yn rhan o ADR y DU (Ymchwil Data Gweinyddol y DU) a ariennir gan yr ESRC.

Data am gyhoeddiadau WISERD ar dudalen 10, wedi'i ddarparu gan Elsevier: **www.elsevier.com**.



# Adroddiad y Cyfarwyddwr



Y llynedd, daeth y geiriau 'permacrisis' a 'polycrisis' yn rhan o'r lecsicon Saesneg. Wn i ddim pa mor ddefnyddiol yw'r termau hyn, ond mae'r rhyfel yn Wcráin, yr argyfwng costau byw a chwyddiant, trychinebau amgylcheddol, effaith Brexit, systemau gofal cymdeithasol a'r GIG ar y dibyn, polisi ffoaduriaid sy'n llanast, a chythrwfl gwleidyddol yn y Deyrnas Unedig oll yn cyfrannu at ymdeimlad o ansicrwydd am yr hyn sydd ar y gorwel.

Y llynedd, daeth y geiriau 'permacrisis' a 'polycrisis' yn rhan o'r lecsicon Saesneg. Wn i ddim pa mor ddefnyddiol yw'r termau hyn, ond mae'r rhyfel yn Wcráin, yr argyfwng costau byw a chwyddiant, trychinebau amgylcheddol, effaith Brexit, systemau gofal cymdeithasol a'r GIG ar y dibyn, polisi ffoaduriaid sy'n llanast, a chythrwfl gwleidyddol yn y Deyrnas Unedig oll yn cyfrannu at ymdeimlad o ansicrwydd am yr hyn sydd ar y gorwel.

Er bod effeithiau pandemig Covid-19 a'r cyfnodau clo yn dal i atseinio, rwy'n credu ei bod hi'n bwysig edrych ar yr hirdymor a chydnabod bod gan lawer o'r heriau rydyn ni'n eu hwynebu, gan gynnwys breuder ein systemau lles a'r cwymp mewn cyflogau go iawn, hen ragflaenwyr. Mae ymchwil WISERD yn defnyddio'r safbwynt hwn, ac mae hyn yn amlwg yn ein canfyddiadau ar ganlyniadau addysgol a lles ein pobl ifanc, ar yr economi sylfaenol, ac ar anghydraddoldeb parhaus o ran mynediad at wasanaethau allweddol yng Nghymru. Byddwn ni'n parhau i ddarparu ymchwil sy'n berthnasol i bolisi sy'n disgrifio, yn egluro ac yn gwerthuso problemau cymdeithasol cymhleth, ac ymhlith hynny mae ein ffocws ar haeniad dinesig sy'n archwilio anghydraddoldebau o ran hawliau dynol a'r capasiti i wneud y mwyaf o hawliau.

Gyda hyn mewn cof, roedd 2022 yn nodi hanner ffordd drwy brosiect pum mlynedd Canolfan Cymdeithas Sifil ESRC: Haeniad Dinesig ac Atgyweirio Sifil, ac mae wedi bod yn bleser croesawu sawl cydweithiwr newydd i'n cefnogi i barhau i symud y gwaith hwn yn ei flaen. Mae'r rhain yn cynnwys dwy ysgoloriaeth PhD WISERD â ffocws rhyngwladol – Christina Galanaki ac Alfar Asmaa sy'n ymchwilio i warcheidwaeth wrth-fewnfudwyr yng Ngwlad Groeg a phrofiadau ffoaduriaid o Balesteina yn y Deyrnas Unedig.

Mae'r Athro Alan Felstead wedi ymuno â'r Grŵp Gweithredol fel cyd-gyfarwyddwr, a hefyd wedi'i benodi i rôl strategol sydd â'r nod o gynyddu capasiti i gydweithio ar ymchwil. Mae Alan yn cynnig arbenigedd ym maes marchnadoedd llafur a gwaith, a rhaglen bwysig o ymchwil wedi'i hariannu gan ESRC yn dechrau yn 2023. Ym mis Gorffennaf 2022, rhoddodd dystiolaeth arbenigol i'r Pwyllgor Cydraddoldeb a Chyfiawnder Cymdeithasol yn y Senedd.

Mae wedi bod yn wych cael Dr Dan Evans yn ôl gyda WISERD ar ôl iddo adael am ychydig flynyddoedd, yn fwyaf diweddar i weithio fel gweithiwr cymorth rheng flaen gyda phobl sy'n cysgu allan yng Nghaerdydd. Mae'n ymuno â Rhys Davies, Jean Jenkins a Helen Blakely ar brosiect 'Undebau llafur, gweithredaeth ar lawr gwlad ac undod', sy'n cael ei gyflawni mewn partneriaeth â UCL.

Rydyn ni hefyd wedi penodi Dr Matt Thompson i weithio gyda ni ar brosiect 'Cymdeithas sifil a strategaethau sy'n seiliedig ar leoedd ar gyfer datblygu cynaliadwy'. Yn dilyn y cynnydd cryf a wnaed yn datblygu astudiaethau achos yng Nghymru, gan gynnwys ein gwaith gyda Bwrdd Uchelgais Economaidd y Gogledd a Dinas-ranbarth Caerdydd, mae Matt wedi treulio'r chwe mis diwethaf yn cynnal cyfres o astudiaethau achos ar Ewrop.

Llongyfarchiadau i Dr Amy Sanders ym Mhrifysgol Aberystwyth, a gafodd Wobr Goffa Campbell Adamson eleni am y Papur Gorau yng Nghynhadledd Flynyddol y Sector Gwirfoddol ac Ymchwil Wirfoddol (VSVR). Yn ogystal, roedd Amy'n un o dderbynwyr Gwobr

Eleni, cynhalion ni **Gynhadledd Flynyddol WISERD** wyneb yn wyneb am y tro cyntaf ers dechrau'r pandemig, yn Ysgol Rheolaeth Prifysgol Abertawe ar Gampws y Bae. Croesawon ni dros 140 o gynrychiolwyr, a chafwyd cyflwyniadau ar dros hanner cant o bapurau, heb sôn am ddau brif siaradwr ysbrydoledig – yr Athro Mererid Hopwood o Brifysgol Aberystwyth a Dr Victoria Winckler, Cyfarwyddwr Sefydliad Bevan. Yn y gynhadledd, cynhaliwyd lansiad llyfr ar gyfer cyfres lyfrau y Gymdeithas Sifil a Newid Cymdeithasol WISERD gyda Policy Press. Gallwch ddarllen mwy am y gyfres hon ar dudalen 11. Yn ogystal â'n cynhadledd flynyddol, cynhalion ni raglen amrywiol o ddigwyddiadau yn 2022. Gallwch ddarllen mwy am y rhain ar dudalen 12.

Goffa Audrey Jones am Ymchwil yn 2022, gan Gynulliad Merched Cymru. Cyflwynodd Amy'r gwaith hwn yng Nghynhadledd Flynyddol Cynulliad Merched Cymru ym mis Medi.

Llongyfarchiadau i dri athro WISERD a oedd ymhlith y 66 o Gymrodorion newydd a etholwyd i Gymdeithas Ddysgedig Cymru yn 2022, sy'n cynrychioli rhai o'r ffigurau mwyaf clodwiw ym mywyd academaidd a dinesig Cymru a thu hwnt – Yr Athro Martina Feilzer o Brifysgol Bangor, Yr Athro Rhys Jones FLSW o Brifysgol Aberystwyth a'r Athro Steve Smith FLSW o Brifysgol De Cymru.

Uchafbwynt arall oedd croesawu'r Athro Charles Sabel o Ysgol y Gyfraith Columbia fel ysgolhaig gwadd rhyngwladol WISERD ym mis Tachwedd. Ymunodd yr Athro Sabel â ni yn sbarc|spark mewn wythnos o ddigwyddiadau a thrafodaethau am ei waith ar lywodraethu arbrofol, gan gynnwys darlith gyhoeddus yn awditoriwm sbarc|spark ar ei lyfr newydd gyda David Victor *'Fixing the Climate: Strategies for an Uncertain World'.*

Ar lefel ryngwladol, mae wedi bod yn bleser dilyn gwaith Dr Igor Calzada (Prif Gymrawd Ymchwil yn WISERD), wrth iddo gyflawni Ysgoloriaeth Preswyl Comisiwn Fulbright ym Mhrifysgol Talaith California, Bakersfield ar gyfer blwyddyn academaidd 2022-2023. Edrychwn ymlaen at adeiladu ar y cysylltiadau y mae wedi'u gwneud, y gobeithiwn y byddant yn darparu rhagor o gyfleoedd cyffrous ar gyfer cyfnewid deallusol a diwylliannol.

Roedd 2022 hefyd yn nodi deng mlwyddiant 'Astudiaeth Aml-garfan Addysg WISERD (WMCS)'. Fel rhan o Ŵyl Gwyddorau Cymdeithasol ESRC eleni, cyflwynodd Dr Laura Arman weminar ar yr astudiaeth hydredol unigryw hon. Rydyn ni'n parhau i gydweithio gyda Llywodraeth Cymru ar ffocws yr astudiaeth hon a'n gwaith addysg arall, fel Lab Data Addysg WISERD a phrosiect Bywydau wedi'u Gwahardd gyda Phrifysgol Rhydychen.

Dros yr haf, roedd yn wych gweld ymchwilydd o Brifysgol Caerdydd, Dr Nick Hacking, yn ogystal ag aelodau Grŵp Gwyddoniaeth Dinasyddion y Barri, yn croesawu gosod monitor llygredd aer o safon uchel gan Think Air LTD, a oedd yn nodi cyfnod newydd yng ngwaith ymchwil y grŵp i ansawdd aer lleol.

Ar ôl chwe blynedd, daeth y prosiect IMAJINE (Mecanweithiau Integreiddiol ar gyfer Mynd i'r Afael â Chyfiawnder Gofodol ac Anghydraddoldebau Tiriogaethol yn Ewrop) i ben yn ffurfiol ar 30 Mehefin. Mae hwn wedi bod yn brosiect sylweddol i WISERD, a oedd wedi'i ariannu fel rhan o Raglen Horizon 2020 yr UE ac wedi'i leoli yng Nghanolfan Gwleidyddiaeth a Chymdeithas Cymru ym Mhrifysgol Aberystwyth. Yr Athro Mike Woods oedd yn rheoli'r prosiect, ac roedd yn cynnwys 11 o becynnau gwaith ac 16 o bartneriaid ar draws 13 o wledydd. Mae'r corff gwaith trawiadol hwn wedi cynhyrchu mewnwelediadau beirniadol newydd i gysyniadu cyfiawnder gofodol, a'i gymhwysiad mewn ymchwil, a bydd hyn cael ei drafod mewn llyfr mynediad agored sydd ar y gweill, *In Search of Spatial Justice: Addressing Regional Inequalities in Europe*, a fydd yn cael ei gyhoeddi yn 2023 gan Edward Elgar Publishing.

Prosiect arall a ddaeth i'r fei eleni oedd 'Ffiniau, mecanweithiau ffiniau a mudo', a arweiniodd at ddigwyddiad gwych ym Mhrifysgol Bangor, a oedd yn archwilio'r profiadau a'r heriau mae'r Roma, Sipsiwn a Theithwyr yn eu hwynebu yn Ewrop heddiw. Daeth y digwyddiad â sefydliadau cymdeithas sifil, academyddion, llunwyr polisïau, ac aelodau o'r gymuned ynghyd, gan gynnwys Dr Adrian Marsh, ymchwilydd Astudiaethau Romani yn y Sefydliad Ymchwil Swedaidd yn Istanbul sy'n arwain y Rhwydwaith Rhyngwladol ar Astudiaethau Romani.

Mae ein cydweithwyr ym Mhrifysgol Bangor hefyd yn parhau â'u gwaith pwysig ar y system cyfiawnder troseddol, ac mae cyllid Rhwydwaith Arloesedd Cymru (WIN) wedi'i sicrhau ar gyfer y flwyddyn i ddod i gyflawni 'prosiect rhannu data Cymru gyfan'. Ymunodd yr Athro Martina Feilzer â Grŵp Datblygu'r Gwasanaeth Prawf, sydd â'r nod o gynghori Llywodraeth Cymru ar sefydlu Gwasanaeth Prawf i Gymru. Mae Martina hefyd yn rhan o drafodaethau gyda Heddlu Gogledd Cymru ar brosiect sy'n archwilio effaith diwygiadau cydraddoldeb ac amrywiaeth ar ddiwylliant sefydliadol yn Heddlu Gogledd Cymru, a rhoddodd dystiolaeth i Bwyllgor Cyfiawnder Tŷ'r Cyffredin ar ddealltwriaeth y cyhoedd o ddedfrydu ym mis Rhagfyr.

Ar y cyd â chydweithwyr ym Mhrifysgol Aberystwyth, trefnodd Martina ail raglen Arweinyddiaeth Ymchwil Aberystwyth a Bangor, sy'n agored i ymchwilwyr o bob disgyblaeth, gan gynnwys cydweithwyr WISERD.

Yng Nghaerdydd, mae gwaith y Cyd-gyfarwyddwr, yr Athro Jean Jenkins, yn parhau fel arweinydd Cyngres Undebau Llafur Cymru ar Safonau Gwaith a Datganoli. Cyhoeddodd y comisiwn eu hadroddiad interim dros yr haf. Roedd Jean hefyd yn rhan o banel o siaradwyr o'r gwledydd datganoledig am safonau gwaith a datganoli yng Nghynhadledd Flynyddol Cysylltiadau Diwydiannol Prifysgolion Prydain, a gynhaliwyd ym mis Mehefin ym Mhrifysgol Manceinion.

Ymhellach oddi cartref, roedd 2022 yn nodi deng mlynedd ers y tân erchyll yn Ali Enterprises a laddodd dros 250 o weithwyr dillad ym Mhacistan. Gwelodd Jean a gweddill y tîm yn WISERD adroddiad pwysig yn cael ei rhyddhau ar sail ein hymchwil gyda'r Ymgyrch Dillad Glân a'u partneriaid ym Mhacistan, sy'n datgelu'r angen brys i ehangu'r Cytundeb Rhyngwladol ym Mhacistan, sef cytundeb diogelwch cyfreithiol i amddiffyn gweithwyr.





**Yr Athro Sabel yn traddodi darlith gyhoeddus yn awditoriwm sbarc|spark**

Ar ddechrau'r flwyddyn, symudodd staff WISERD Caerdydd yn swyddogol i'w cartref newydd yn sbarc|spark – sy'n rhan o Gampws Arloesedd Prifysgol Caerdydd. Rydyn ni bellach yn gweithio ochr yn ochr â rhai o'n partneriaid allweddol, ac mae wedi bod yn wych gweld perthnasau'n tyfu ac yn datblygu dros y misoedd diwethaf.

Un prosiect cydweithredol o'r fath yw prosiect Rhwydwaith Arloesedd Cymru (WIN), sy'n cynnwys cydweithwyr WISERD ym Mhrifysgol Caerdydd a Phrifysgol De Cymru, a hefyd y Sefydliad Materion Cymreig, sy'n gweithio ochr yn ochr â ni yn sbarc|spark. Mae prosiect WIN yn adeiladu ar brosiect Deall Lleoedd Cymru, a hefyd y gwaith a gynhaliwyd ym Mhrifysgol De Cymru ar hygyrchedd bysiau a theithio llesol. Ym mis Hydref, daeth rhanddeiliaid allweddol ynghyd yn sbarc|spark i drafod yr heriau allweddol y mae pobl ag anawsterau symud ac anabledd yn eu hwynebu wrth ddefnyddio a chael mynediad at drafnidiaeth gyhoeddus, ac i gyd-gynhyrchu cyfres o gwestiynau ymchwil.

Ymddangosodd ein hymchwil ar hygyrchedd bysiau mewn erthygl a gyhoeddwyd gan Wasanaeth Ymchwil y Senedd ym mis Ebrill. Gwelwyd tystiolaeth o'r ymchwil hygyrchedd aml-fodd hwn hefyd yn nhrawsgrifiadau'r Pwyllgor Newid Hinsawdd, yr Amgylchedd a Seilwaith yn rhan o ymchwiliad y Senedd ar ddyfodol trafnidiaeth gyhoeddus yng Nghymru, a chyhoeddwyd adroddiad terfynol ym mis Hydref. Mae tîm WISERD ym Mhrifysgol De Cymru hefyd wedi creu gwefan newydd i archwilio hygyrchedd gwasanaethau allweddol yng Nghymru. Maent yn croesawu adborth ar eu prototeip, felly mae croeso i chi gysylltu gyda nhw os hoffech eu cynorthwyo â hyn, ewch i: **wiserd.ac.uk/keyservices.**

Ym mis Rhagfyr, datgelodd ADR Cymru ei Raglen Waith Arfaethedig a fydd yn helpu i gynnig mewnwelediad i'r materion allweddol y mae Cymru a'r Deyrnas Unedig yn eu hwynebu. Mae ADR Cymru, a sefydlwyd yn 2018, yn uno arbenigedd ymchwil o Ysgol Feddygaeth Prifysgol Abertawe a WISERD â dadansoddwyr yn Llywodraeth Cymru. Cymerodd ymchwilwyr ADR Cymru ran mewn astudiaeth yn ddiweddar a gyhoeddwyd gan Lywodraeth Cymru i dynnu sylw at fanteision a chyfyngiadau defnydd uwch o ddata i ddarparu gwasanaethau gyrfaoedd yng Nghymru.

Rwy'n gobeithio bod yr adroddiad hwn wedi rhoi cipolwg i chi o'n gweithgareddau ymchwil yn 2022 ac y byddwch yn parhau i ddilyn ac ymgysylltu â'n gwaith yn ystod y flwyddyn i ddod. Os oes gennych ddiddordeb mewn dysgu mwy am ein cynlluniau ymchwil, neu os hoffech gydweithio gyda ni ar brosiect, mae croeso i chi gysylltu â ni.

*Ian Rees Jones*
Cyfarwyddwr WISERD

# Data ariannu ymchwil

Yn ystod 2023, gwnaeth WISERD gais am **37 o grantiau ymchwil** ar draws pob un o'r pum prifysgol bartner. Roedd hefyd yn rhan o geisiadau ymchwil, yn cynnwys y rhai hynny a arweiniwyd gan sefydliadau eraill, hyd at werth o **£17.9m**.

Cyfanswm y grantiau ymchwil a gafodd WISERD yn 2022 oedd **£2.76m**.

## Cyllid newydd yn 2022

Daw dros **£1.8m** o'r cyllid hwn gan y Cyngor Ymchwil Economaidd a Chymdeithasol (ESRC) ar gyfer Arolwg Sgiliau a Chyflogaeth 2023: Prosiect Parhad a Newid sydd hefyd yn cael ei ariannu gan Adran Addysg y DU (**£150k**) a'r Gwasanaeth Cynghori, Cymodi a Chyflafareddu (ACAS) (**£50k**).

Daw cyllid newydd arall gan y cyllidwyr canlynol:





| | |
|---|---|
| Llywodraeth Cymru | £350,854 |
| Ymddiriedaeth Leverhulme | £171,557 |
| Rhwydwaith Arloesi Cymru | £70,450 |
| IFF Research Ltd | £63,758 |
| Prifysgol Bangor IIA | £42,000 |
| Llywodraeth y DU | £27,370 |
| Cyllid Arloesi Ymchwil Cymru | £18,000 |
| Arian Sefydlu AU Rural Futures Hub | £9,235 |
| Prifysgol Bangor | £5,000 |
| Prifysgol Aberystwyth | £1,104 |
| **Cyfanswm (gan gynnwys Arolwg Sgiliau a Chyflogaeth 2023)** | **£2,759,320** |

Mae gan WISERD hanes rhagorol o ennill cyllid ymchwil cystadleuol. Yn 2022, gwnaethom lwyddo i sicrhau cyllid newydd gan sefydliadau yn y sector cyhoeddus a'r trydydd sector:



## Ymchwil presennol WISERD (dan reolaeth yn 2022)

Daeth gwerth ymchwil barhaus WISERD yn 2022 i gyfanswm o **£13.6m** ar draws **30 o grantiau ymchwil**.





| | |
|---|---|
| Cymdeithas Sifil WISERD: Newid Safbwyntiau ar Haeniad Dinesig a Thrwsio Sifil: Canolfan ESRC | £7,927,418 |
| Ymchwil Data Gweinyddol Cymru (ADR Cymru): Canolfan ESRC | £2,750,310 |
| Rhaglen IMAJINE Horizon 2020: Y Comisiwn Ewropeaidd | £969,833 |
| Bywydau wedi'u Gwahardd: Economïau Gwleidyddol Gwahardd o'r Ysgol a'u Goblygiadau: ESRC | £374,858 |
| ROBUST: Rhaglen Ymchwil ac Arloesedd Horizon 2020: Y Comisiwn Ewropeaidd | £275,700 |
| Astudiaeth Aml-garfan Addysg WISERD: Llywodraeth Cymru | £245,758 |
| Byw Brexit yng Nghefn Gwlad Prydain: Cymunedau Gwledig a Mudo: Ymddiriedaeth Leverhulme | £171,557 |
| Diweithdra ymysg Pobl Ifanc a'r Gymdeithas Sifil dan Ddatganoli: Dadansoddiad Cymharol o Gyfundrefnau Lles Is-wladwriaethol. ESRC | £169,330 |
| Hwb Deilliannau Cynhyrchiant Ymarfer, Ymgysylltu a Dysgu yn y Gweithle (PrOPEL) | £151,221 |
| Canolfan Atebion Digidol NERC: Cyngor Ymchwil yr Amgylchedd Naturiol | £108,817 |
| x20 o brosiectau a ariennir ar £100k neu lai | £489,551 |
| **Cyfanswm** | **£13,634,353** |

## Grantiau ymchwil a gafwyd rhwng 2012-2022


Ers 2012, mae WISERD wedi cyflwyno **261** o geisiadau ariannu ymchwil ar draws prifysgolion partner WISERD, gyda **chyfradd lwyddo o 58%**. Cyfanswm y grantiau ymchwil a gafwyd gan WISERD ers 2012 yw **£33.1m**.

| | |
|---|---|
| Cyngor Ymchwil Economaidd a Chymdeithasol (ESRC) | £23,636,730 |
| Llywodraeth Cymru | £2,337,923 |
| Y Cyngor Ymchwil Ewropeaidd | £2,300,000 |
| Cyngor Cyllido Addysg Uwch Cymru (CCAUC) | £1,569,685 |
| Yr Undeb Ewropeaidd | £1,265,611 |
| Cronfa Seilwaith Ymchwil Prifysgol Caerdydd | £376,920 |
| Ymddiriedaeth Leverhulme | £184,817 |
| Yr Adran Addysg | £150,000 |
| Cyngor Ymchwil Amgylchedd Naturiol (NERC) | £108,817 |
| Cyllidwyr eraill | £1,243,506 |
| **Cyfanswm** | **£33,174,009** |



# Cysylltiadau rhyngwladol

Mae WISERD yn falch o fod wedi parhau i sefydlu llawer o gysylltiadau rhyngwladol. Mae prosiectau a digwyddiadau ymchwil cydweithredol wedi digwydd ac mae rhai enghreifftiau o'r rhain i'w gweld isod.



## Efrog Newydd

Yn gynnar ym mis Tachwedd 2022, roeddem yn falch iawn o groesawu'r Athro Charles Sabel o Ysgol y Gyfraith Columbia fel ysgolhaig gwadd rhyngwladol WISERD. Ymunodd yr Athro Sabel â ni yn sbarc|spark mewn wythnos o ddigwyddiadau a thrafodaethau am ei waith ar lywodraethu arbrofol, gan gynnwys darlith gyhoeddus yn awditoriwm sbarc|spark ar ei lyfr newydd gyda David Victor *Fixing the Climate: Strategies for an Uncertain World.*

## Califfornia

Cwblhaodd Dr Igor Calzada (Prif Gymrawd Ymchwil yn WISERD) rôl fel Ysgolhaig Preswyl y Comisiwn Fulbright ym Mhrifysgol Talaith Califfornia, Bakersfield ar gyfer blwyddyn academaidd 2022-2023. Parhaodd Dr Calzada gyda'i ymchwil ar ddinasyddiaeth ddigidol, yn rhan o'r broses o lansio Sefydliad Astudiaethau Basgaidd newydd, a meithrin cysylltiadau rhwng Cymru, Gwlad y Basg a Chaliffornia.

## Warsaw

Ar ddiwedd mis Mehefin, daeth y prosiect IMAJINE (Mecanweithiau integreiddiol ar gyfer mynd i'r afael â chyfiawnder gofodol ac anghydraddoldebau tiriogaethol yn Ewrop) i ben. Mae hwn wedi bod yn brosiect sylweddol i WISERD, a oedd wedi'i ariannu fel rhan o Raglen Horizon 2020 yr UE ac wedi'i leoli yng Nghanolfan Gwleidyddiaeth a Chymdeithas Cymru ym Mhrifysgol Aberystwyth. Cynhaliwyd cynhadledd olaf prosiect IMAJINE 'Spatial justice and territorial inequalities in uncertain times' yn Warsaw, Gwlad Pwyl ym mis Mai.

## Istanbul

Daeth Dr Adrian Marsh, ymchwilydd mewn Astudiaethau Romani yn Sefydliad Ymchwil Sweden yn Istanbul sy'n arwain y Rhwydwaith Astudiaethau Romani Rhyngwladol i ymuno â ni fel prif siaradwr ar gyfer ein digwyddiad ym Mhrifysgol Bangor ym mis Medi 2022, a fu'n archwilio profiadau Roma, Sipsiwn a Theithwyr a heriau yn Ewrop heddiw. Hefyd, arweiniodd Dr Marsh weithdy yn y digwyddiad ar *'Romani research, Travellers' Tales – an academic's practical field guide to working with Gypsy, Roma, Traveller communities in contemporary social science, health and humanities research'.*

## Pacistan

Yn 2022 rhyddhawyd adroddiad pwysig y ar sail ein hymchwil gyda'r Ymgyrch Dillad Glân/Clean Clothes a'u partneriaid ym Mhacistan, sy'n datgelu'r angen brys i ehangu'r Cytundeb Rhyngwladol ym Mhacistan, sef cytundeb diogelwch cyfreithiol i amddiffyn gweithwyr. Roedd yr ymchwil yn cynnwys casglu data systematig yn ymwneud â phrofiad gweithwyr o iechyd a diogelwch galwedigaethol yn y gweithle, gan gynnwys materion a oedd yn gysylltiedig â Covid-19, mewn tair canolfan drefol ym Mhacistan (Lahore, Faisalabad a Karachi). Cyfrannodd yr adroddiad at sail tystiolaeth yr Ymgyrch Dillad Glân ar gyfer lobïo ac eiriolaeth dros newid polisi, ac ymestyn y Cytundeb Rhyngwladol i Bacistan. Erbyn hyn, mae'r amcan hwn wedi'i gyflawni. Ym mis Rhagfyr 2022, sefydlwyd rhaglen diogelwch yn y gweithle newydd ym Mhacistan am dymor cychwynnol o dair blynedd, gan ddechrau yn 2023. Enw'r cytundeb sy'n deillio o hynny yw 'Cytundeb Pacistan ar Iechyd a Diogelwch yn y Diwydiant Tecstilau a Dillad (Cytundeb Pacistan)'.
Ewch i: **internationalaccord.org/countries/pakistan**.

## Turin

Fel rhan o'r Rhwydwaith Addysg Bellach Ryngwladol, cynhaliodd WISERD 'Pumed Gynhadledd yr Economi Sylfaenol: Yr Economi Sylfaenol, Arloesedd Cymdeithasol a Gweithredu Cyhoeddus' yn yr Eidal, ym mis Medi 2022, a chroesawyd prif areithiau gan yr Athro Charles Sabel (Ysgol y Gyfraith Columbia) a Fabrizio Barca (Fforwm Anghydraddoldeb ac Amrywiaeth). Holodd y gynhadledd: *'Beth sy'n unigryw am y dull sylfaenol o arloesi ac arbrofi; a beth gallwn ni ac eraill ei ddysgu o ystyried a chymharu dulliau gwahanol?'*

# Cyhoeddiadau

Mae WISERD yn cynhyrchu amrywiaeth o gyhoeddiadau ar gyfer cynulleidfaoedd academaidd, polisi ac ymarferwyr, gan gynnwys cylchlythyrau a blogiau.

Yn 2022, cyhoeddodd WISERD dros **84** o gyhoeddiadau academaidd, gan gynnwys:

| | |
|---|---|
| Erthyglau mewn cyfnodolion | **39** |
| Llyfrau a phenodau mewn llyfrau | **24** |
| Adroddiadau a briffiau | **17** |
| Arall | **4** |

Yn 2022, cyhoeddodd WISERD **22** o flogiau.

Gallwch ddarllen y rhain ar ein gwefan: **wiserd.ac.uk/blog**.

Ers 2008, mae WISERD wedi cyhoeddi dros **800** o gyhoeddiadau academaidd, gan gynnwys:

| | |
|---|---|
| Erthyglau mewn cyfnodolion | **590+** |
| Llyfrau a phenodau mewn llyfrau | **160** |
| Adroddiadau a briffiau | **154** |

## Erthyglau cyfnodolion a gyhoeddwyd ers 2017


**15.9%**
Allbynnau yn y canraddau dyfynnu uchaf
**Cyhoeddiadau yn y 10% o gyfnodolion a ddyfynnir fwyaf yn fyd-eang**

**21.2%**
Cydweithio rhyngwladol
**Cyhoeddiadau a ysgrifennwyd ar y cyd â sefydliadau mewn gwledydd eraill**

**40%**
Cyhoeddiadau yn y canraddau cyfnodolion uchaf
**Cyhoeddiadau yn y 10% uchaf o gyfnodolion yn ôl Canradd CiteScore**

*© 2022 Elsevier B.V. Cedwir pob hawl. Mae SciVal, RELX Group a'r symbol RE yn nodau masnach i RELX Intellectual Properties SA, a ddefnyddir o dan drwydded.*

Roedd erthyglau WISERD mewn cyfnodolion rhwng 2017 a 2022 yn ymdrin ag ystod o feysydd pwnc:




| | |
|---|---|
| Gwyddorau cymdeithasol | 52% |
| Y celfyddydau a'r dyniaethau | 9% |
| Meddygaeth | 7% |
| Economeg, econometreg a chyllid | 6% |
| Gwyddor amgylcheddol | 6% |
| Busnes, rheoli a chyfrifeg | 5% |
| Seicoleg | 3% |
| Peirianneg | 3% |
| Gwyddorau'r ddaear a'r planedau | 2% |
| Cyfrifiadureg | 2% |
| Arall (nyrsio, gwyddorau amaethyddol a biolegol biocemeg, geneteg a bioleg foleciwlaidd, egni, amlddisgyblaethol) | 4% |



## Cyfres lyfrau Cymdeithas Sifil a Newid Cymdeithasol WISERD


Lansiwyd y gyfres o lyfrau sydd gan WISERD ar Gymdeithas Sifil a Newidiadau Cymdeithasol yn 2020. Mae'r rhain yn rhoi safbwyntiau rhyngddisgyblaethol a chymharol ar y ffordd hynod o gyflym y mae cymdeithas sifil yn newid yn lleol, yn rhanbarthol, yn genedlaethol ac yn fyd-eang. Mae'r gyfres yn safbwyntiau rhyngddisgyblaethol a chymharol ar natur cymdeithas sifil sy'n newid yn gyflym ar raddfeydd lleol, rhanbarthol, cenedlaethol a byd-eang. Mae'r gyfres yn cynnwys set graidd o gyfrolau wedi'u golygu yn adrodd am ganfyddiadau ymchwil o bob rhan o Ganolfan Ymchwil Cymdeithas Sifil WISERD, a ariennir gan ESRC. Mae teitlau dethol yn y gyfres ar gael gyda mynediad agored.

I nodi rhyddhau teitlau 2022 ac ail-lansio sawl teitl presennol ar fformat clawr papur, cynhaliwyd lansiad llyfrau ar y cyd â Policy Press yng Nghynhadledd Flynyddol WISERD 2022. Dan arweiniad golygyddion y gyfres, yr Athro Paul Chaney, yr Athro Ian Rees Jones a'r Athro Mike Woods, roedd y digwyddiad lansio'n cynnwys sgyrsiau gan yr awduron a gyflwynodd ganfyddiadau ymchwil o'r cyfrolau a gyhoeddwyd.




Yn y llun (chwith i'r dde) Dr Ian Stafford, yr Athro Michael Woods, yr Athro Ian Rees Jones, yr Athro Paul Chaney, Dr David Beel

Cyhoeddwyd y teitlau canlynol yn 2022:




**Civil Society in an Age of Uncertainty: Institutions, Governance and Existential Challenges**
Golygwyd gan Paul Chaney ac Ian Rees Jones




**Analysing the Trust-Transparency Nexus**
Gan Ian Stafford, Alistair Cole a Dominic Heinz

Dyma deitlau blaenorol a gyhoeddwyd yn 2021 a 2020:

**Local Civil Society** Gan Robin Mann, David Dallimore, Howard Davis, Graham Day a Marta Eichsteller

**City Regions and Devolution in the UK** Gan David Beel, Martin Jones ac Ian Rees Jones

**Civil Society and the Family** Gan Esther Muddiman, Sally Power a Chris Taylor

**Civil Society through the Lifecourse** Golygwyd gan Sally Power

**The Foundational Economy and Citizenship** Golygwyd gan Filippo Barbera ac Ian Rees Jones

**Putting Civil Society in Its Place** Gan Bob Jessop

Y teitlau sydd ar y gweill y bwriedir eu cyhoeddi yn 2024 yw:

**Single Mothers and the Welfare Trap** Gan Helen Blakely

**Youth Unemployment and Precarity** Gan Sioned Pearce

Cewch ragor o wybodaeth am y gyfres yma: **policy.bristoluniversitypress.co.uk/civil-society-and-social-change**.

Gweler rhagor o gyhoeddiadau ar ein gwefan: **wiserd.ac.uk/publications**.

BRISTOL UNIVERSITY PRESS

Policy Press
PUBLISHING WITH A PURPOSE

# Digwyddiadau ac ymgysylltu

**Cynhadledd Flynyddol WISERD, mis Gorffennaf 2022**
Yn 2022 cynhaliwyd Cynhadledd Flynyddol WISERD wyneb yn wyneb eto, am y tro cyntaf ers 2019, gyda dros 130 o gynrychiolwyr, cyflwynwyr ac arddangoswyr o bob rhan o bum prifysgol partner WISERD a thu hwnt yn dod ynghyd ym Mhrifysgol Abertawe. Thema'r gynhadledd oedd 'Cymdeithas sifil a chyfranogiad: materion cydraddoldeb, hunaniaeth a chydlyniant mewn tirwedd gymdeithasol sy'n newid', a ddenodd dros 50 o bapurau.

Hefyd, mynychodd 14 o arddangoswyr o bob rhan o'r trydydd sector, gan gynnwys y Sefydliad Materion Cymreig (IWA), Canolfan Materion Rhyngwladol Cymru (WCIA), y Ganolfan Ymchwil Heneiddio a Dementia (CADR), Cymdeithas Ymchwil Addysgol Prydain (BERA) Cymdeithas Ddysgedig Cymru (LSW) ac eraill, gan gynnwys cydweithwyr WISERD o ADR Cymru.



**Mudiadau cymdeithas sifil y Roma, Sipsiwn a Theithwyr: Trin a thrafod profiadau a heriau yn Ewrop heddiw, Medi 2022**
Yn y digwyddiad hybrid hwn, daeth dros 30 o gynrychiolwyr at ei gilydd a hefyd sefydliadau cymdeithas sifil Roma, Sipsiwn a Theithwyr o bob rhan o Ewrop ynghyd gydag academyddion, llunwyr polisïau, ac aelodau o'r gymuned i glywed a thrafod profiadau Roma, Sipsiwn a Theithwyr yn Ewrop.

**Cynhadledd Lansio Cynghrair Economi Sylfaenol Cymru, Rhagfyr 2022**
Gyda dros 40 o gynrychiolwyr a rhagor o gyflwynwyr a chynrychiolwyr yn ymuno ar-lein, lansiodd y gynhadledd hybrid brosiect y Cynghrair Sylfaenol o adeiladu cynghreiriau ar gyfer newid ac adnewyddu sylfaenol yng Nghymru. Tynnodd cyfuniad o gyflwyniadau a phynciau trafod mewn gweithdai sylw at amcanion sylfaenol a ffyrdd o weithio sy'n gallu cynnal y gallu i fyw mewn cartrefi a darparwyr cyfrifol o fewn terfynau cynllunio.

**Cynhadledd Ymchwil Tai Cymru, Rhagfyr 2022**
Cyd-gynhaliwyd Cynhadledd Ymchwil Tai Cymru gan Rwydwaith Ymchwil Tai WISERD Cymru, Canolfan Cydweithredol y DU ar gyfer Tystiolaeth Tai, a Shelter Cymru, a llwyddodd i ddod â dros 80 o gynrychiolwyr ynghyd i ymchwilio i dystiolaeth sy'n ymwneud â rhai o'r materion tai mwyaf brys yng Nghymru.

**Cyfres seminarau ar-lein**
Rydym wedi cyflwyno 22 seminar ar-lein yn 2022, a oedd yn cwmpasu amrywiaeth eang o bynciau wedi'u cyflwyno gan ymchwilwyr WISERD a siaradwyr gwadd.

**Sesiynau hyfforddi a meithrin gallu (HMG)**
We have delivered four sessions in 2022:
- Arlunio mewn Ymchwil
- Delweddu Data a Dylunio Ffeithluniau
- Cyflwyniad i Ddulliau Ansoddol Uwch
- Hyfforddiant Cyfweld Ansoddol Ar-lein

**Y Ganolfan Genedlaethol ar gyfer Dulliau Ymchwil (NRCM)**
Rydym yn dal i weithio ar y cyd â'r NCRM i gyflwyno cyfres o gyrsiau hyfforddiant wyneb yn wyneb ac ar-lein sy'n mynd i'r afael ag ystod o anghenion dysgu i ymchwilwyr, gan amrywio o gyrsiau ar ddulliau ymchwil cymysg i ddefnyddio cymwysiadau ymchwil meintiol penodol.

## Sylw gan y cyfryngau

**Plant yn dal ar goll o ystafelloedd dosbarth**
Ym mis Mawrth, dyfynnwyd yr Athro Chris Taylor, cyfarwyddwr academaidd sbarc|spark ym Mhrifysgol Caerdydd, yn y *South Wales Echo* a'r *Western Mail* ei bod yn bosibl bod plant a rhieni'n teimlo bod yr ysgol yn "ddewisol", yn enwedig ar ddydd Gwener, ar ôl dwy flynedd o darfu yn sgil y pandemig.

**Sunday Supplement**
Bu'r Athro Sally Power yn adolygu materion cymdeithasol ym mhapurau'r dydd ar raglen *Sunday Supplement* ar BBC Radio Wales ym mis Mai a mis Tachwedd.

**Mynediad i bob ardal neu wedi colli'r bws?**
Ym mis Ebrill, ysgrifennodd yr Athro Mitchel Langford, yr Athro Gary Higgs a Dr Andrew Price o Brifysgol De Cymru erthygl wadd ar wefan Ymchwil y Senedd am sut mae'r pandemig wedi effeithio ar lefelau'r gwasanaeth bysiau ledled Cymru.

**Cinio Nadolig Caerdydd**
Ym mis Rhagfyr, cafodd Jemma Bridgeman,Ymchwilydd Cynorthwyol, rhan o dîm Excluded Lives, sylw ar raglen newyddion ITV *Wales at Six* wrth baratoi at ginio Nadolig CASCADE ExChange Wales i blant a phobl ifanc mewn gofal.